August 2009

# BMC CYMRU



## NEXT MEETING TUESDAY 1ST SEPT 8P.M.

**Vaynol Nant Peris - Free Food - All Welcome**

### Diary Dates

- North Wales Meeting,1st September, 8.00 pm, The Vaynol, Nant Peris, free food as usual.
- South Wales Meeting, 19th August, 8pm @ Boulders Climbing Centre, Cardiff.
- Gower Festival, 4/5/6 September. Check out www.gowerclimbingfestival.co.uk
- BMC Cymru/Wales, Hillwalking and Climbing Funday, 5th December, Plas y Brenin.
- LLAMFF, 5th -7th March, 2010

### Appointment of BMC Access and Conservation Officer (Wales)

Well, we've done it! What a fantastic achievement. I hope you read Dave Turnbull's opening words in *Summit*. On June 10th we appointed Elfyn Jones to the post. Many of you will have come across Elfyn as he's been around in Wales for sometime.

Briefly he's from Blaenau Ffestiniog of a farming/slate mining family - studied countryside management, has worked for Snowdonia and Pembroke National Parks and is currently a senior manager with the National Trust in North Wales.

He's also a pretty handy climber. This year he's put up a new route in Mali, cruised 7a+ and flashed E5. And as if that wasn't enough he's got an ML, is MIA trained and Chairs Llanberis Rescue team. For all matters Welsh Elfyn Jones will be our first point of contact. Elfyn lives near Llanberis and will have an office on the Plas y Brenin campus.

Elfyn is keen to be involved in access and conservation projects both locally all over Wales and nationally. He has a particular interest in upland footpath management. Elfyn will attend our meetings in the north and the south in September although he doesn't start work for us until September 21st.

## Tremadog Completion

I'm very pleased to announce the completion of the Tremadog Revival works. Trees have been cut, climbs have been cleaned and paths have been marked. The last project was to use the fallen timber to mark the entrances to the paths. So you shouldn't need to bushwack to find any of the climbs!

All approaches should be clearly described in the forthcoming new guidebooks but for now visit www.tremadog.wetpaint.com.

It is quite important that we try to keep to the new paths, not create extra ones and not barge our way through to reopen old ones. As part of the grant work we have tried to create a better more natural wood land with clear wild areas. The benefit to climbers is that climbs should be easier to find, to climb and to keep climbable.



It's OK to clear dandelions, ivy and brambles from routes to keep them climbable. We all need to play our part in managing this crag, after all we do own it!

I do keep seeing the odd thread about inconsiderate abseiling on UKC, so if we all can, and can encourage others to, just have a look down the crag before lowering our ropes. I'm sure then we'll all get along so much better together. So do not shout "Rope below" and just lob your rope off the crag, have a look over the edge and if it's clear just lower your rope down, please!

## Clubs Rep

The BMC has started a new committee to represent member clubs and to help them have a full say in the machinations of the BMC world. BMC Cymru/Wales has been awarded one place on this committee so I'm hoping someone from the clubs will step forward.
All clubs in Wales have been emailed directly by the BMC about the new Clubs committee and the process for electing representatives. BMC Cymru/Wales will try to elect a rep at our next meeting in Nant Peris on 1st September.

## Snowdon is a Bag



Hundreds of white bags (now rotting) on all of the main Snowdon paths with no obvious signs of any work planned, and some hideous and dangerous chest high rusting barbed wire alongside the Llanberis path - ugly and dangerous. It'd be interesting to get people's views and should we be putting some pressure on the National Park to either empty these bags or better, get on with the work?

## Slate News

Around the time you receive this enewsletter the filming of The Clash of the Titians should be over. Whether or not the path will have re-opened is another matter. Our fear is that when the path re-opens Dali's Hole will have gained itself a very large new fence.

First Hydro have told us that they would like to put up a 2.4m high fence right across the entrance to Dali's from Lob Scouse to the rock wall on the other side. Regardless of the effect on climbing access we feel this would be a scenic intrusion and is very much unwanted.

First Hydro point out they have a duty to keep people out of the quarries. We ask why? There have been no problems at Dali's Hole and surely it is better to keep the less experienced climbers in this one accessible place.

Alas all I can report is the BMC is taking the matter very seriously and high level negations are ongoing. There is no 'official' access to the quarries but we hope to continue climbing there without interference.

If you are approached, be polite, point out you are aware of the risks. You cannot be prosecuted for trespassing so whether you leave or not is up to you, the BMC however finds negotiating easier if climbers

are known to be nice reasonable people!

## PYP/PYG Path & Green Key

Over the last couple of years there have been conflicting reports about what is happening at the Pen y Gwryd. We were told by the National Park that a footpath would be way marked form PYG to Pen y Pass, this hasn't happened due to a dispute with the landowner.

The latest thing to happen, under the guide of Green Key is to formalise the roadside verge parking at PYP by creating 93 parking places with a pay and display machine. And it's planned to run a shuttle bus form PYG to PYP.

## Off-Roading

This has been a big problem for some time now on Holyhead Mountain. Recently the RSPB, Anglesey Council and the North Wales police have stepped up their actions. The police have issued several seizure notices and the RSPB and Anglesey council would appreciate any reports of off-roading from climbers. Get in touch with North Wales Police on 0845 6071002 (English) or 0845 6071001 (Welsh). Incident report forms and more at http://bit.ly/1kKuZc

## Limestone Clean-Ups


Local activists are planning to organise some crag clean ups at Llanddulas and Penmaen Head. The BMC will support this work through its Crag Care Fund. As we go to press I haven't got any dates for these but if you want help to organise a crag clean up the BMC does have money available to help you. Contact us through the BMC Cymru/Wales meetings either in the north or the south, or via bmccymruwales@live.co.uk.

## Loose Rocks on the Orme

Some near misses lately with loose rock at Pen Trwyn - two separate nasty incidents on Mayfair Wall when climbers near the top of Rupture/ Bearded Clam pulled blocks off. Thankfully injuries not too serious but ambulances called to both and some quite big blocks coming off, which did end up on the road - so be aware and be careful. Similar thing happened at LPT, again a large block coming off the top of Over the Moon missing belayers by inches.

## Mynydda Cometh

Another major on-going project for BMC Cymru/Wales has been to lobby MLT to publish their classic Hillwalking text in Welsh. The BMC and Clwb Mynydda Cymru have put their money where there mouth is and supported the production of this book along with MLTW.




Steve Long and Libby Peter of MLT have pushed it forward and thanks to them and loads of other volunteers (sorry I don't have your names to hand). The launch of *Mynydda* will be at the National Eisteddfod in Bala during the first week of August.

## Pembroke

The first range west briefing, in May, was very busy. There was a bit of a worry that the army were going to restrict numbers of climbers on the range even more than the current 30 limit but they went back on this after pressure from Lynne Ferrand (National Park/MoD/CCW ranger) and climbers.

Access is improving this year in that Range West will be open for climbing in evenings and weekdays when the range is not in use, as well as the normal weekend access. On the down-side, we can no longer sign in a mate - everyone must have a pass. These are now Photo IDs so you can't lend your ID to anyone else.

In Range East, there's more good news. Most of the range (from Mewsford to St. Govans) will be open for the whole of August. The whole of Range East is open all of August except Mon-Thurs for the first 2 weeks. The army are putting a sentry at Bullslaughter Bay during days when firing is in progress in these first 2 weeks as the only activity is on Range 6 which is near Stack Rocks.

The following seasonal restrictions have been lifted early: 3 Mewsford, 8 Devil's Barn, Stennis Head and 11 Trevallen (details on RAD).

I did one impromptu crag clean up one weekend at St. Davids Head. This was after discovering the debris from a group of anglers who had left a complete

mess below the bouldering area including remains of several barbeques, beer cans, poly bags, fishing tackle, newspapers, tissues etc.

Quite a few of the more obscure crags in North Pembs that I have been checking are getting seriously overgrown and would benefit from more climbing. Llechdafad is virtually inaccessible due to gorse and brambles and the Peoples cliff is fantastic for botany but tricky for climbing at present.
Steve Quinton

### Gower
Yellow Wall bird restrictions lifted early and if you haven't visited this crag you should, it's the most Pembroke like wall on the Gower.

### BMC Website Developments
Major developments are currently being trialled on the BMC website for the English areas and BMC Cymru/Wales. We will soon have our own area on the website which we can update ourselves. This may change the way we bring news to you and I would envisage instead of a large PDF file in your inbox we would send you an email of headlines and links to the web pages, not sure yet though, but watch this space.

### MountainSafe
MountainSafe was set up by the North Wales Police with the aim of improving mountain safety in Snowdonia. Initially they asked the local mountain rescue teams and the National Park to join them. They have recently added the National Trust and Plas y Brenin to their team and now have asked BMC Cymru/to join them.

We have attended two meetings so far and our principle aim has been to challenge the idea that mountains can be made safe. MountainSafe now accepts it role is advisory and has adopted a strapline line of *Our Advice Your Decisions*.




### BMC Cymru/Wales Hillwalking and Climbing Funday, 5th December
Once again we will be running this successful day at Plas y Brenin. I hope we can again have a good set of workshops available for you. We are looking at some different ideas for this year and would welcome any suggestions you may have.

On the same day the BMC's National Council will be meeting so I'm hoping you will get the chance to meet the decision makers! I will certainly be inviting them to field a team in the Grand No Prize Quiz which starred question master extraordinaire Dr. Noel Craine last year and seemed to go down very well.

### MLTW Appoint New Officer
MLTW have just appointed local lad Bryn Williams as their development officer. Bryn is originally from North Wales, is a welsh speaker and has lived here all his life.




Bryn is a fully qualified summer mountaineering instructor and winter walking leader, holding the Mountaineering Instructor Award (MIA) and Winter Mountain Leader Award ML(W).

In addition he has trained for the MIC award. For the last 7 years Bryn has been running his own business 'Dragon Mountain Skills', delivering mountaineering courses and NGB awards. In his spare time he serves on the committee for the AMI and is also a member of the busy Llanberis Mountain Rescue team. Local boy done good, well done Bryn!

### World Class Climbers at The Association of Mountaineering Instructors AGM

AMI members in Wales should make a note in their diaries that AMIs AGM will take place at Plas y Brenin on the 28th November.

As part of its commitment to ongoing Continuous Professional Development (CPD) for its members, and thanks to the support of Mountain Equipment (ME), AMI is to bring together two of Europe's most accomplished climbers to run some of the numerous workshops which will be taking place over the weekend.

ME sponsored climbers Dave McLeod and Andy Turner will be running climbing coaching and dry tooling sessions. Both are renowned for their futuristic visions in establishing routes of the highest calibre, Andy in winter and Dave across winter, summer trad and bouldering. Dave will also be on hand to give a lecture after the AGM itself, with tales of living at the cutting edge of today’s climbing possibilities.

Other CPD will include gorge-walking, coasteering, technical advising by Marcus Bailie of AALA and an assessors workshop. DMM will be on hand with a technical gear seminar, there will be personal CPD on crevasse rescue and finally Expedition Medicine by Jeremy Windsor. Jeremy has climbed Cho Oyu and Everest as part of the Caudwell Xtreme Medical Research. He is a anaesthetist at the Whittington Hospital and lecturer in Physiology at the University College London.

AMI members offer a wide range of instruction, from introductory navigation, through to perfecting your winter climbing skills and techniques. For more details on how to improve your climbing, rope work or general mountain skills with AMI members benefiting from all of this CPD, visit www.ami.org.uk

**BMC** **CRAG CODE**
**www.thebmc.co.uk**

| | |
|---|---|
| **Access** | Check the Regional Access Database (RAD) on www.thebmc.co.uk for the latest access information |
| **Parking** | Park carefully – avoid gateways and driveways |
| **Footpaths** | Keep to established paths – leave gates as you find them |
| **Risk** | Climbing can be dangerous – accept the risks and be aware of other people around you |
| **Respect** | Groups and individuals – respect the rock, local climbing ethics and other people |
| **Wildlife** | Do not disturb livestock, wildlife or cliff vegetation; respect seasonal bird nesting restrictions |
| **Dogs** | Keep dogs under control at all times; don’t let your dog chase sheep or disturb wildlife |
| **Litter** | ‘Leave no trace’ – take all litter home with you |
| **Toilets** | Don’t make a mess – bury your waste |
| **Economy** | Do everything you can to support the rural economy – shop locally |

**BMC Participation Statement** — Climbing, hill walking and mountaineering are activities with a danger of personal injury or death. Participants in these activities should be aware of and accept these risks and be responsible for their own actions and involvement.

Awst 2009

# BMC CYMRU



## CYFARFOD NESAF 1AF MEDI 8PM

**Y Faenol Nant Peris – Bwyd am Ddim – Croeso i Baw**

### Dyddiadau i'w Cofio

Y Cyfarfodydd Nesaf:

- Gogledd: 1af Medi 8.00 pm, Tafarn y Faenol, Nant Peris, bwyd am ddim.
- De: 19ed Awst 8.00 pm, Canolfan Ddringo Boulders, Caerdydd.
- Gŵyl Gŵyr 4/5/6 Medi. Edrychwch ar wefan www.gowerclimbingfestival.co.uk.
- BMC Cymru, Diwrnod Hwyl Cerdded y Bryniau a Dringo, 5ed Rhagfyr, Plas y Brenin.
- LLAMFF, 5ed - 7fed Mawrth, 2010.

### Penodi Swyddog Mynediad a Chadwraeth BMC i Gymru

Llwyddiant o'r diwedd! A llwyddiant ysgubol at hynny! Gobeithio y byddwch yn darllen geiriau agoriadol Dave Turnbull yn rhifyn diweddaraf Summit. Penodwyd Elfyn Jones gennym i'r swydd ar 10fed Mehefin. Bydd llawer ohonoch wedi dod ar draws Elfyn gan ei fod yn berson adnabyddus yng Nghymru.

Yn fyr, mae'n hanu o Flaenau Ffestiniog, o deulu o ffermwyr a chwarelwyr llechi; mae wedi astudio rheolaeth gefn gwlad, a bu'n gweithio i Barciau Cenedlaethol Eryri a Sir Benfro, ac ar hyn o bryd mae'n un o Uwch Reolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Ngogledd Cymru.

Mae'n ddringwr medrus hefyd. Mae wedi sefydlu llwybr newydd ym Mali eleni, yn ogystal â dringo 7a+ yn rhwydd a dringo E5 ar ei gynnig cyntaf. Ar ben hynny i gyd, mae ganddo dystysgrif Arweinydd Mynydd, mae wedi ei hyfforddi ar gyfer Cymhwyster Hyfforddwr Mynydd, ac mae'n Gadeirydd Tîm Achub Llanberis. Elfyn fydd ein prif gyswllt ynglŷn â phopeth Cymreig a Chymraeg. Mae'n byw ger Llanberis a bydd ei swyddfa ar gampws Plas y Brenin.

Mae Elfyn yn awyddus i ymwneud â phrosiectau mynediad a chadwraeth yn lleol ym mhob rhan o Gymru yn ogystal â rhai cenedlaethol. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn rheoli llwybrau'r ucheldir. Bydd Elfyn yn dod i'n cyfarfodydd mis Medi yn y gogledd a'r de er

nad yw'n cychwyn ar ei waith gyda ni tan Fedi 21ain.

**Cwblhau Gwaith Tremadog**

Rwy'n falch iawn o gyhoeddi bod gwaith Adfer Tremadog wedi ei gwblhau. Cwympwyd rhai coed, gwnaed gwaith i lanhau'r dringfeydd a gosodwyd arwyddion cyfeirio ar y llwybrau. Y prosiect olaf oedd defnyddio'r coed a gwympwyd i ddynodi'r mynediad i'r llwybrau. Ni fydd rhaid i chi wneud gwaith barbio bellach os ydych am gael hyd i rai o'r dringfeydd!



Bydd yr holl ffyrdd at y dringfeydd yn cael eu disgrifio'n eglur yn yr arweinlyfrau newydd a gyhoeddir yn fuan, ond am y tro edrychwch ar wefan www.tremadog.wetpaint.com.

Mae'n weddol bwysig ein bod yn ceisio cadw at y llwybrau newydd a pheidio â chreu rhai newydd na gwthio'n ffordd trwy'r tyfiant i ailagor yr hen rai. Rhan o'r gwaith a wnaed gyda'r grant oedd ceisio creu coetir gwell a mwy naturiol gydag ambell i lecyn gwyllt. Bydd yn fantais i ddringwyr fod y dringfeydd yn haws dod o hyd iddynt, i'w dringo ac i'w cadw'n ddringadwy.

Mae clirio planhigion dant-y-llew, iorwg a mieri o'r dringfeydd yn dderbyniol er mwyn eu cadw'n ddringadwy. Rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan yn rheolaeth y graig hon; wedi'r cyfan, ni sydd biau hi!

Rwy'n dal i weld ambell i gadwyn o negeseuon am abseilio anystyriol ar fforwm UKC - felly, gobeithio y gwnawn ni i gyd gael cip i lawr wyneb y graig cyn gollwng ein rhaffau - ac annog eraill i wneud yr un modd. Mae'n siŵr gen i y byddwn yn medru cyd-fyw'n hapusach o lawer wedyn. Felly, peidiwch â gweiddi "Rhaff yn dod i lawr" a lluchio'ch rhaff o dop y graig, cymerwch gip dros yr ochr ac os yw'r lle'n glir, gollyngwch eich rhaff yn drefnus os gwelwch yn dda!

**Cynrychiolydd Y Clybiau**

Mae'r BMC wedi sefydlu pwyllgor newydd a fydd yn cynrychioli'r clybiau hynny sy'n aelodau a'u helpu i gael dweud eu dweud yn llawn yn holl drefniadau byd BMC. Mae BMC Cymru wedi cael un sedd ar y pwyllgor hwn ac felly rwy'n gobeithio y bydd rhywun o un o'r clybiau'n gwirfoddoli.

Anfonodd y BMC e-bost am Bwyllgor newydd y Clybiau yn uniongyrchol at bob clwb yng Nghymru, a soniwyd hefyd am y drefn ar gyfer ethol cynrychiolwyr. Bydd BMC Cymru'n ceisio ethol cynrychiolydd yn ein cyfarfod nesaf yn  Nant Peris ar 1af Medi.

**Pentwr o Fagiau yw'r Wyddfa Bellach!**

Mae cannoedd o fagiau gwynion (sydd erbyn hyn yn pydru) ar hyd holl brif lwybrau'r Wyddfa heb unrhyw arwydd amlwg bod gwaith ar y gweill, a chyda pheth weiren bigog rydlyd a pheryglus gyn uched â chorff dyn ar hyd llwybr Llanberis - yn hyll ac yn beryglus. Byddai'n ddiddorol clywed barn pobl; tybed a ddylen ni fod wrthi'n pwyso ar y Parc Cenedlaethol naill ai i wagio'r bagiau hyn neu'n well, fynd ati i wneud y gwaith?



**Newydd o'r Llechfeini**

Tua'r amser y byddwch yn derbyn yr e-gylchlythyr hwn, dylai gwaith ffilmio'r Clash of the Titans fod wedi dod i ben. Mater arall yw'r llwybr ac nid oes sicrwydd a fydd wedi cael ei ailagor ai peidio. Ein pryder ni yw'r posibilrwydd y bydd Twll Dali wedi cael ffens newydd sbon anferthol erbyn i'r llwybr gael ei ail-agor.

Mae First Hydro wedi dweud wrthym yr hoffent godi ffens 2.4m o uchder ar draws y fynedfa i Dali'r holl ffordd o Lobsgóws hyd wal y graig yr ochr draw. Beth bynnag am yr ymyrraeth â'r mynediad at ddringfeydd rydym o'r farn y byddai hyn yn anharddu'r olygfa ac mae'n bell o fod yn rhywbeth i'w groesawu.

Mae First Hydro yn pwysleisio fod ganddynt ddyletswydd i gadw pobl o'r chwareli. Hoffem wybod pam. Ni chafwyd unrhyw broblemau ym Mhwll Dali ac mae'n rhaid ei bod hi'n well cadw'r dringwyr llai profiadol yn yr un lle hwn sydd yn hawdd ei gyrraedd.

Ysywaeth, y cwbl y gallaf ei ddweud yw bod y BMC yn cymryd y mater o ddifrif ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar lefel uchel. Nid oes dim mynediad 'swyddogol' i'r chwareli ond ein gobaith yw y

bydd modd parhau i ddringo yno heb rwystr.

Os daw rhywun atoch, byddwch yn gwrtais, a dywedwch eich bod yn ymwybodol o'r peryglon. Ni ellwch gael eich erlyn am dresbas ac felly mater i chi yw gadael ai peidio. Fodd bynnag, bydd y BMC yn cael y gwaith trafod yn haws os bydd dringwyr yn cael eu cyfrif yn bobl glên!

### Llwybr PYP/PYG a'r Goriad Gwyrdd

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf cafwyd hanesion gwahanol am yr hyn sy'n digwydd ym Mhen y Gwryd. Dywedodd y Parc Cenedlaethol wrthym y byddai llwybr o BYG hyd Pen-y-Pas yn cael ei arwyddo ond nid yw hyn wedi digwydd oherwydd anghytundeb gyda'r tirfeddiannwr.

Y peth diweddaraf i ddigwydd, dan arweiniad y Goriad Gwyrdd, yw ffurfioli'r parcio ar ochr y lôn ger PYP trwy greu 93 o fannau parcio gyda pheiriant talu-ac-arddangos. Mae cynllun hefyd i redeg bws gwennol rhwng PYG a PYP.

### Gyrru oddi ar y Ffordd

Mae hyn wedi bod yn broblem fawr ar Fynydd y Tŵr (Caergybi) ers peth amser erbyn hyn. Mae'r RSPB, Cyngor Ynys Môn a Heddlu Gogledd Cymru wedi mynd i'r afael â phethau'n well yn ddiweddar. Mae'r heddlu wedi cyflwyno sawl hysbysiad atafaelu a byddai'r RSPB a Chyngor Ynys Môn yn ddiolchgar iawn am gael clywed oddi wrth ddringwyr os bydd gyrru oddi ar y ffordd.

Gellir cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru trwy ffonio 0845 6071001 (Cymraeg) neu 0845 6071002.

### Gwaith Glanhau ar y Calchfaen


Mae rhai sy'n weithgar yn lleol yn bwriadu trefnu nifer o sesiynau glanhau yn Llanddulas a Phenmaen-rhos. Ceir cymorth ariannol gan y BMC o'i Gronfa Gofal am Greigiau. Nid yw dyddiadau'r rhain yn hysbys wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg, ond os ydych am helpu i drefnu sesiwn glanhau creigiau, mae gan y BMC arian a all fod o gymorth i chi. Dewch i gysylltiad â ni yng nghyfarfodydd BMC Cymru yn y gogledd neu'r de, neu anfonwch e-bost at / bmccymruwales@live.co.uk.

### Creigiau Rhydd ar y Gogarth

Daeth ambell un yn agos at gael damwain oherwydd craig rydd ar Ben Trwyn - roedd dau ddigwyddiad annifyr ar Mayfair Wall pan dynnodd dringwyr oedd ger pen uchaf Rupture/Bearded Clam flociau o garreg yn rhydd. Diolch byth na chawsant eu niweidio'n ddrwg ond galwyd ambiwlans allan ar y ddau achlysur a syrthiodd nifer o flociau gweddol fawr ar y ffordd. Byddwch effro felly, a byddwch yn ofalus. Digwyddodd rhywbeth cyffelyb ar Ben Trwyn Isaf (LPT), pan syrthiodd bloc mawr arall o ran uchaf Over the Moon gan fethu belaiwyr o drwch blewyn.

### Mynydda a Ddaw

Prosiect mawr arall a gymerodd amser oedd lobïo MLT er mwyn eu perswadio i gyhoeddi eu clasur, Hillwalking, yn Gymraeg. Mae'r BMC a Chlwb Mynydda Cymru wedi cyfrannu arian tuag at gynhyrchu'r llyfr hwn ar y cyd â Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru (MLTW).
Mae Steve Long a Libby Peter o Hyfforddi Arweinwyr Mynydd (MLT) wedi bod yn gefnogol iawn; diolch iddyn nhw a llawer o wirfoddolwyr eraill (ymddiheuriadau nad yw'ch enwau wrth law gennyf). Bydd "Mynydda" yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala yn ystod wythnos gyntaf Awst.




### Sir Benfro

Roedd y sesiwn briffio cyntaf am ran orllewinol y maes tanio, a gynhaliwyd fis Mai diwethaf, yn brysur iawn. Roedd rhywfaint o bryder y byddai'r Fyddin yn cyfyngu nifer y dringwyr ar y maes tanio i lai hyd yn oed na'r 30 presennol ond newidiwyd eu hagwedd wedi i Lynne Ferrand (warden y Parc Cenedlaethol/Y Weinyddiaeth Amddiffyn/CCGC) a dringwyr bwyso arnynt.

Mae mynediad yn well eleni gan y bydd Gorllewin y Maes Tanio'n agored ar gyfer dringo gyda'r nos ac yn ystod yr wythnos pan nad yw'r maes tanio'n cael ei ddefnyddio, yn ogystal ag ar benwythnosau fel sydd yn arferol. Yr hyn sydd yn llai boddhaol yw na chawn gofrestru cyfaill bellach - rhaid i bawb gael trwydded. Mae'r rhain bellach â llun adnabod arnynt ac nid oes modd i chi roi benthyg eich trwydded i neb arall.

Mae mwy o newyddion da yn Nwyrain y Maes Tanio. Bydd y rhan fwyaf o'r maes tanio (o Mewsford hyd Sant Gofan) yn agored trwy gydol mis Awst. Bydd y cwbl o ran ddwyreiniol y Maes Tanio'n agored drwy fis Awst i gyd, heblaw am ddydd Llun hyd ddydd Iau yn ystod y ddwy wythnos cyntaf. Mae'r Fyddin am osod gwyliwr ym

Mae Bullslaughter ar ddyddiau pan fydd tanio'n digwydd yn ystod y ddwy wythnos hyn gan na fydd unrhyw beth yn digwydd ond ar Faes tanio 6 sydd ger Stack Rocks.

Mae'r cyfyngiadau tymhorol canlynol wedi eu dileu'n gynnar: 3 Mewsford, 8 Devil's Barn, Stennis Head a 11 Trevallen (ceir y manylion ar y Gronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol [RAD]).

Penderfynais ar y funud olaf wneud gwaith glanhau'r penwythnos diwethaf ar Benmaendewi, wedi i mi ddod o hyd i'r holl sbwriel yr oedd criw o bysgotwyr wedi ei adael ar eu hôl o dan y man dringo clogfeini. Roeddent wedi gadael olion sawl barbeciw, caniau cwrw, bagiau polythen, offer pysgota, papur sychu etc.

Mae nifer o'r creigiau mwy diarffordd yng Ngogledd Sir Benfro'n cael eu gorchuddio â gordyfiant a byddai'n dda o beth pe byddai mwy o bobl yn eu dringo. Mae bron yn amhosibl mynd at Lechdafad oherwydd eithin a mieri ac mae Peoples Cliff yn ardderchog o ran y llystyfiant ond mae'n anodd ei ddringo ar hyn o bryd.
Steve Quinton

### Gŵyr
Codwyd y cyfyngiadau oherwydd yr adar ar Yellow Wall yn gynnar. Os nad ydych wedi ymweld â'r clogwyn hwn, dylech fynd yno. Dyna'r wal fwyaf tebyg i rai Sir Benfro sydd i'w chael ar Benrhyn Gŵyr.

### Datblygiadau Gwefan BMC
Mae nifer o ddatblygiadau pwysig yn cael eu treialu ar wefan y BMC ar gyfer y rhanbarthau Seisnig a BMC Cymru.

Cyn bo hir, bydd gennym ein man ein hunain ar y wefan y bydd modd i ni ei uwchraddio ein hunain. Mae'n bosibl y bydd hyn yn newid y ffordd y byddwn yn cyflwyno newyddion i chi a rhagwelaf y byddwch yn derbyn e-bost gennym yn nodi'r penawdau ac yn rhoi cysylltau i'r tudalennau ar y we yn hytrach na chael ffeil PDF fawr yn eich blwch derbyn. Nid yw hyn wedi ei benderfynu'n derfynol eto; cadwch eich llygaid yn agored felly.

BMC
thebmc.co.uk
Cyngor
Mynydda
Prydain

### DringoDiogel
Sefydlwyd DringoDiogel gan Heddlu Gogledd Cymru gyda'r nod o wneud mynyddoedd Eryri'n fan diogelach. Ar y cychwyn gofynnwyd i'r timau achub mynydd lleol a'r Parc Cenedlaethol ymuno â hwy. Maent wedi ychwanegu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phlas y Brenin yn ddiweddar ac erbyn hyn maent wedi gofyn i BMC Cymru ymuno â nhw.

Rydym wedi mynychu dau gyfarfod hyd yma a'n prif nod fu herio'r syniad y gellir gwneud mynyddoedd yn llefydd diogel. Mae DringoDiogel yn derbyn bellach mai cynghori yw ei swyddogaeth ac mae wedi mabwysiadu'r arwyddair Ein Cyngor Ni, Eich Penderfyniadau Chi.

### Diwrnod Hwyl Cerdded a Dringo Mynyddoedd BMC Cymru, 5ed Rhagfyr
Unwaith eto byddwn yn cynnal y diwrnod llwyddiannus hwn ym Mhlas y Brenin.

Rwy'n gobeithio y medrwn gael set dda o weithdai ar eich cyfer. Rydym yn ystyried rhai syniadau newydd ar gyfer y flwyddyn hon a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gennych.

Bydd Cyngor Cenedlaethol Cymdeithas Mynydda Prydain yn cyfarfod gyda'r nos ac felly gobeithio y cewch gyfle i gwrdd â'r rhai sydd yn gwneud y penderfyniadau! Byddaf yn sicr yn eu gwahodd i ffurfio tîm ar gyfer y Cwis Mawr Di-wobr fel yr un a gynhaliwyd y llynedd lle'r oedd Dr. Noel Craine yn gwestiwnfeistr heb ei ail oherwydd roedd pawb fel pe bai wedi mwynhau.

### Swyddog Newydd MLTW (Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru)
Mae Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru newydd benodi hogyn lleol, sef Bryn Williams, yn swyddog datblygu. Mae Bryn yn dod yn wreiddiol o Ogledd Cymru.

Mae wedi byw yno ar hyd ei oes ac mae'n Gymro Cymraeg. Mae'n meddu ar gymhwyster hyfforddwyr mynydda haf ac arweinydd cerdded gaeaf ac mae wedi ennill cymhwyster fel Hyfforddwr Mynydda ac fel Arweinydd Mynydd Gaeaf.

Mae hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y wobr MIC. Ers 7 mlynedd mae Bryn wedi bod yn rhedeg ei fusnes ei

hun, sef 'Dragon Mountain Skills', yn cyflwyno cyrsiau mynydda a gwobrau NGB. Yn ei amser hamdden mae'n weithgar ar bwyllgor yr AMI (Y Gymdeithas Hyfforddwyr Mynydda) ac yn aelod o dîm Achub Mynydd Llanberis. Dyma fachgen lleol a wnaeth yn dda iawn. Go dda Bryn!




**Dringwyr o Safon Fyd-eang yng nghyfarfod cyffredinol y Gymdeithas Hyfforddwyr Mynydd**

Dylai aelodau'r Gymdeithas Hyfforddwyr Mynydd yng Nghymru nodi dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn eu dyddiaduron. Fe'i cynhelir ym Mhlas y Brenin ar yr 28ain Tachwedd.

Fel rhan o'i hymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i'w aelodau, a diolch i gefnogeth Mountain Equipment, mae'r Gymdeithas wedi denu dau o ddringwyr gorau Ewrop i gynnal rhai o'r gweithdai niferus a fydd yn digwydd dros y penwythnos.

Bydd y ddau ddringwr a noddir gan ME, sef Dave McLeod ac Andy Turner yn cynnal sesiynau hyfforddiant mewn dringo a defnyddio offer dringo ar rew ar graig heb rew. Mae'r ddau'n enwog am eu gweledigaeth yn sefydlu llwybrau dringo o'r safon uchaf, Andy yn y gaeaf a Dave yn y meysydd dringo yn y gaeaf, dringo traddodiadol yn yr haf a dringo clogfeini. Bydd Dave wrth law hefyd i roi darlith ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol gyda hanesion am fynydda arloesol wrth fanteisio ar gyfleoedd dringo heddiw.

Bydd y Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cynnwys hefyd cerdded ceunentydd ac arforgampau, cyngor technegol gan Marcus Bailie o'r AALA a gweithdy aseswyr. Bydd DMM wrth law gyda seminar offer technegol, bydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus personol ar achub o hafnau ac yn olaf Meddyginiaeth ar gyfer Teithiau gan Jeremy Windsor. Mae Jeremy wedi dringo'r Cho Oyu ac Everest fel rhan o'r Ymchwil Meddygol Caudwell Xtreme. Mae'n Anaesthetegydd yn Ysbyty Whittington ac yn ddarlithydd mewn Ffisioleg yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain.

Mae aelodau'r AMI yn cynnig amrywiaeth eang o hyfforddiant, o ddulliau sylfaenol o ganfod cyfeiriad i berffeithio eich sgiliau a'ch technegau dringo gaeaf. Os hoffech gael mwy o fanylion ynglŷn â gwella eich dringo, eich gwaith rhaff neu eich sgiliau mynydda'n gyffredinol gyda'r Gymdeithas edrychwch ar www.ami.org.uk

**BMC** **CÔD CREIGIAU**
www.thebmc.co.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mynediad** | Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad | **Bywyd gwyllt** | Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar |
| **Parcio** | Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiau a thramwyfeydd | **Cŵn** | Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt |
| **Llwybrau** | Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiau fel 'rydych yn eu ffeindio | **Sbwriel** | Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi |
| **Peryglon** | Gall dringo fod yn beryglus- derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas | **Tai bâch** | Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff |
| **Parch** | Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill | **Economi** | Gwnewch popeth a fedrwch i gefnogi'r economi gwledig- prynnwch yn lleol |

**Datganiad cyfranogaeth y BMC** — mae dringo, cerdded bryniau a mynnydda yn weithgareddau gyda perygl o niwed personnol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifiol am eu gweithredau a'u cysylltiad.